Urdd Gobaith Cymru

# Swydd Ddisgrifiad

Urdd

| | | | |
|---|---|---|---|
| Teitl y swydd : | Rheolwr Prentisiaethau Chwaraeon, Awyr Agored, Hamdden a Ffitrwydd | Lleoliad : | Yn gweithio o swyddfa Llangrannog, Llansamlet neu Llanisien (Caerdydd) |
| Adran : | Prentisiaethau | Cyflog : | Graddfa 6: £34,866 - £40,685 |
| Oriau Gwaith : | Llawn amser (35 awr yr wythnos) | Cytundeb : | Parhaol |
| Yn adrodd i : | Dirprwy Bennaeth / Rheolwr Sicrhau Ansawdd Arweiniol | Rheolaeth Llinell: | Cydlynydd Prentisiaethau Chwaraeon ac Awyr Agored, Aseswyr Chwaraeon ac Awyr Agored |

## Prif bwrpas y swydd:

Pwrpas y swydd hon yw rheoli holl elfennau ein prentisiaethau chwaraeon, awyr agored, hamdden a ffitrwydd.

## Prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau:

1. Bod yn gyfrifol am raglenni dysgu Arwain Gweithgareddau, Datblygu Chwaraeon, Cefnogi Dysgu ac Addysgu mewn Addysg Gorfforol a Chwaraeon Ysgol, Rhaglenni Awyr Agored a Rheoli Hamdden.
2. Gweithredu gwaith sicrhau ansawdd drwy ymgymryd ag arsylwadau, cyfweliadau dysgu ac arolygu.
3. Rheolwr llinell i’r Cydlynydd Prentisiaethau Chwaraeon ac Awyr Agored ac aseswyr yn ôl yr alw.
4. Bod yn gyfrifol am gweithredu y broses Ail-ymgysylltu ar gyfer y rhaglenni sydd o dan ofal y swydd.
5. Rheoli datblygiad llyfrynnau gwaith, gweithdai ac asesiadau eraill amrywiol.
6. Gweithredu fel asesydd i garfan o brentisiaid. (Hyd a 10)
7. Cynnal hyfforddiant i’r tîm er mwyn sicrhau bod modd iddynt ddarparu'r rhaglenni i’r safon a disgwylir.
8. Arwain ar gyfarfodydd tîm Chwaraeon ac Awyr Agored, gan sicrhau bod diweddariadau ac arfer da yn cael ei rhannu.
9. Sicrhau bod y dysgu ac addysgu yn cyd-fynd gyda gofynion y cymhwyster a’r brentisiaeth.
8. Gweithredu mewn modd sydd yn hybu lles, iechyd meddwl a corfforol iach a datblygiad proffesiynol dysgwyr ac aseswyr.
9. Bod yn gyfrifol am weithio gydag aseswyr i sicrhau cynnydd amserol prentisiaid.
10. Cyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau bod dysgwyr yn llwyddo cwblhau’r rhaglen dysgu mewn da bryd.

## Manyleb y person a'r meini prawf: Cymwysterau, sgiliau a phrofiad

*Nodiadau i ymgeiswyr:*

- *I ymgeisio, mae'n rhaid llenwi'r ffurflen gais yn llawn, gan roi enghreifftiau i gefnogi eich atebion. Mae'n rhaid i chi ddangos eich bod yn cwrdd â'r holl feini prawf hanfodol i gael eich cynnwys ar y rhestr fer.*
- *Ar ôl y dyddiad cau, ni fydd yr hysbyseb swydd hon ar gael ar ein Gwefan, felly cofiwch gadw copi ar gyfer eich cofnodion.*

| Hanfodol: | Dymunol: |
|---|---|
| 1. Cymhwyster TAQA a phrofiad o asesu / tiwtora. | 1. Cymhwyster Dysgu Oedolion. |
| 2. Profiad o fentora eraill. | 2. Cymhwyster sicrhau ansawdd. |
| 3. Profiad (o leiaf 2 flynedd) o weithio yn un (neu fwy) o'r sectorau canlynol: Chwaraeon, Hamdden, Ffitrwydd, Awyr Agored, Addysg. | 3. Dealltwriaeth o systemau e-portffolio. |
| 4. Dealltwriaeth dda o'r sector prentisiaethau. | 4. Profiad o weithio i ddarparwr hyfforddiant neu gorff gwobrwyo. |
| 5. Profiad o ddatblygu Adnoddau neu fodelau darparu. | |
| 6. Sgiliau trefnu rhagorol a'r gallu i dalu sylw at y manylion. | |
| 7. Gradd, Prentisiaeth neu brofiad cyfwerth mewn maes cysylltiedig. | |

Newidiadau i'r Swydd Ddisgrifiad**:** Gall y disgrifiad swydd hwn newid neu gael ei ddiwygio ar unrhyw amser ar ôl ymgynghori â deiliad y swydd.

Hyblygrwydd: Tynnir eich sylw at y ffaith fod dyletswyddau a chyfrifoldebau penodol mewn rhai achosion yn anodd eu dadansoddi yn fanwl a gallent newid o dro i dro heb newid cymeriad cyffredinol y dyletswyddau na lefel y cyfrifoldeb.

Yn ychwanegol, mae'n ofynnol i bob aelod o'r staff dderbyn elfennau o hyblygrwydd yn eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau, a phan fo angen, cyfnewid er mwyn cyfarfod anghenion a gofynion y gwasanaeth sy'n newid yn barhaus. Bydd angen o'r fath yn galluogi i arbenigedd penodol y deilydd dyfu a datblygu er lles y cyflogwr a'r gweithiwr.

Adolygiad: Cyhoeddwyd y disgrifiad swydd yma ym mis Mehefin 2023 ac fe'i hadolygir yn gyson fel rhan o ddatblygiad yr unigolyn, ynghyd ag adolygiad perfformiad.

CRYNODEB O'R TELERAU, AMODAU A BUDDIANNAU

**(**ceir manylion llawn yn y Llawlyfr Staff**)**

| | |
|---|---|
| Teitl y swydd: | Rheolwr Prentisiaethau Chwaraeon, Awyr Agored, Hamdden a Ffitrwydd |
| Cyfnod prawf: | Bydd cyfnod prawf o 6 mis |
| Gwiriad GDG: | Bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus gael ei wirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG). |
| Cyngor Gweithlu Addysg | Disgwylir i'r ymgeisydd llwyddiannus cofrestri gyda'r Cyngor Gweithlu Addysg fel Ymarferydd Dysgu Seiliedig ar Waith. |
| Archwiliad meddygol: | Cedwir yr hawl i ofyn i'r sawl a benodir cael archwiliad meddygol cyn cynnig y swydd yn ffurfiol. |
| Cyflog: | Penodir ar Bwynt 1 ar y raddfa berthnasol, oni bai fod profiad/cymhwyster arbennig yn denu un pwynt ychwanegol. Yn Ebrill bob blwyddyn, bydd staff fel arfer yn symud un pwynt oddi mewn i'r raddfa gyflog hyd nes y byddant yn cyrraedd pwynt 4. Mae hyn ar yr amod bod aelod o staff yn gyflogedig gan y mudiad ar 31ain o Ragfyr a heb gyrraedd pen y raddfa. |
| Gwyliau blynyddol: | Caniateir 25 niwrnod o wyliau blynyddol ac wyth niwrnod o wyliau cyhoeddus. Bydd y gwyliau'n cynyddu i 28 diwrnod ar ôl 5 mlynedd o wasanaeth ac yna i 33 diwrnod ar ôl 10 mlynedd o wasanaeth. |
| Diwrnod Anrhydeddus Dydd Gŵyl Dewi: | Ar wahân i'ch gwyliau blynyddol, mae gan staff yr hawl i gymryd Dydd Gŵyl Dewi i ffwrdd fel diwrnod anrhydeddus blynyddol. Caiff staff rhan-amser hawl pro-rata i'r diwrnod anrhydeddus hwn gan selio diwrnod llawn ar 7 awr. |
| Diwrnod Pen-blwydd: | Yn ychwanegol i'ch hawl gwyliau blynyddol, rhoddwn yr hawl i staff gymryd diwrnod eu Pen-blwydd i ffwrdd fel diwrnod o wyliau blynyddol. Caiff staff rhan amser hawl pro rata i'r diwrnod hwn gan selio diwrnod llawn ar 7 awr. |

| | |
|---|---|
| Diwrnod Lles: | Yn ychwanegol i'ch hawl gwyliau blynyddol, wedi cyfnod o 6 mis yn y swydd ac ar ddiwedd cyfnod prawf llwyddiannus, rhoddwn yr hawl i staff gymryd 1 diwrnod y flwyddyn fel Diwrnod personnol i'w Lles.<br>Caiff staff rhan amser hawl pro rata i'r diwrnod hwn gan selio diwrnod llawn ar 7 awr. |
| Pensiwn: | Bydd cyfle i ddewis i ymuno â chynllun pensiwn 6% yr Urdd ar unwaith, neu mae'n bosibl byddwch yn cael eich cofrestru i gynllun 'Ymgofrestru Awtomatig'. |
| Profion Llygaid: | Byddwn fel mudiad yn derbyn cyfrifoldeb i dalu am brofion llygaid pob dwy flynedd i'r staff hynny sy'n defnyddio Unedau Arddangos Gweledol (VDU) am o leiaf 50% o'u hamser. Mae modd hawlio hwn drwy ei gynnwys ar ffurflen gostau arferol. |
| Yswiriant Bywyd: | Yn dilyn cwblhau 6 mis yn y swydd byddwch yn ymuno a chynllun yswiriant bywyd yr Urdd sydd yn cynnig yswiriant cyfwerth a 3 gwaith eich cyflog blynyddol trwy gydol eich cyflogaeth gyda'r Urdd hyd at oed 70. |
| Disgownt i staff: | Mae modd cael gostyngiad o :<br>- 20% ar nwyddau yn Siop yr Urdd i gyd.<br>- 50% ar wyliau i aros yn y gwersylloedd<br>- Tocynnau i Eisteddfod yr Urdd |
| Cynllun Beicio | Wedi pasio eich cyfnod prawf llwyddiannus bydd modd i staff elwa o gynllun Beicio'r Urdd, sy'n gynllun aberthu cyflog mewn cydweithrediad gyda CycleScheme. Yn ddibynnol ar eich graddfa, gellir prynu beic ac /neu offer gwerth hyd at £3,000. |